



Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Protocol Argyfwng Tywydd Garw ar gyfer Pobl sy'n Cysgu Allan

Medi 2019

Taflen Rheoli Dogfen

Teitl y ddogfen:	Protocol Argyfwng Tywydd Garw ar gyfer Pobl sy'n Cysgu Allan
Disodli:	Gweithdrefn Ymateb Tywydd Oer ar gyfer Pobl sy'n Cysgu Allan 9.11
Lleoliad yn y Sefydliad	Tai a'r Economi
Ymgynghori/ Budd-ddeiliaid	Sefydliadau Gwirfoddol a Statudol
Adran/ Tîm:	Adran Tai a'r Economi – Dewisiadau Tai
Cymeradwywyd gan:	
Dyddiad Cymeradwyo:	Hydref 2018
Dyddiad Gweithredu:	Hydref 2018
Dull Gweithredu	Cyhoeddwyd ar Wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae'r ddogfen hon i'w darllen ar y cyd â'r dogfennau canlynol:

Rheoli Fersiynau

Fersiwn	Dyddiad	Disgrifiad Byr o'r Newidiadau	Sylwadau
3.2	041018		
3.3	10/9/19	Adolygiad Blynyddol o'r Protocol Argyfwng Tywydd Garw (SWEP) ar gyfer Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd	

Dyddiad Adolygu Hydref 2020

Cynnwys

Tudalen:

- | | |
|---|---|
| 1. RHAN 1 - Datganiad Polisi | 4 |
| Nodau ac Amcanion
Cydraddoldeb | |
| 2. ADRAN 2 – Deddfwriaeth a Chefndir | 4 |
| 3. ADRAN 3 - Diffiniadau | 5 |
| Beth ydi Tywydd Eithriadol o Oer?
Diffiniad o Gysgu Allan
Darpariaeth Bresennol o Wlâu Argyfwng | |
| 4. ADRAN 4 – Gweithredu'r Protocol Argyfwng Tywydd Garw | 7 |
| 5. ADRAN 5 – Aseidiadau Risg | 7 |
| 6. ADRAN 6 – Gwrthod Llety | 7 |
| 7. ADRAN 7 – Gwasanaethau Cefnogi a Ffyrdd o Helpu | 7 |
| 8. ADRAN 8 - Rhifau Ffôn / Gwefannau Defnyddiol | 8 |

ATODIADAU:

Atodiad 1 – Mynediad at Wasanaethau, Argaeledd Bwyd ar gyfer Pobl
Ddigartref a Rhai sy'n Cysgu Allan

RHAN 1 - DATGANIAD POLISI

- 1.1 Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r mesurau y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) a'i bartneriaid allweddol yn eu rhoi ar waith ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd yn Wrecsam yn ystod tywydd garw. Ein diffiniad o dywydd garw dan y polisi hwn yw diwrnod neu fwy nag un diwrnod ble mae'r tymheredd dros nos yn "teimlo" fel 0 gardd Celsius neu is.
- 1.2 Bydd y polisi hwn yn sicrhau y gall CBSW ddarparu llety addas yn gyflym i atal niwed a cholled bywyd i unrhyw berson sy'n cysgu allan yn ystod adegau o dywydd oer eithriadol.
- 1.3 Mae CBSW wedi gweithio gyda chyrrff gwirfoddol a statudol sy'n gweithredu o fewn ardal yr awdurdod lleol, wrth baratoi'r Protocol Argyfwng Tywydd Garw (SWEP) hwn a bydd y partneriaid allweddol canlynol yn ymwneud â darparu ymateb priodol i bobl sy'n cysgu allan yn ystod cyfnodau o dywydd garw:
 - Tŷ Nos
 - Y Wallich
 - Housing Justice Cymru
- 1.4 Rhagwelir y bydd y SWEP yn ymdrin yn bennaf â misoedd Tachwedd i fis Mawrth.

Cydraddoldeb

- 1.5 Nod CBSW yw peidio â gwahaniaethu ac i drin pawb yn gyfartal waeth beth fo'u hoed, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, cenedligrwydd, anabledd neu darddiad ethnig. Byddwn hefyd yn anelu at gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a chyfathrebu'n ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg â'n holl gwsmeriaid.
- 1.6 Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar 26 Ebrill 2018 ar gyfer y ddogfen hon. Bydd y SWEP yn cael ei adolygu'n flynyddol neu'n gynharach i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a thirwedd y bartneriaeth leol.

ADRAN 2 – DEDDFWRIAETH A CHEFNDIR

- 2.1 Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 ddiwygiad sylfaenol i ddeddfwriaeth ddigartrefedd a oedd yn cynnwys gosod dyletswydd cryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd, gan ganiatáu iddynt ddefnyddio llety addas yn y sector preifat. Mae'r Ddeddf wedi'i chynllunio i helpu pawb sydd mewn perygl yn hytrach na'r rhai hynny mewn grwpiau blaenoriaeth.
- 2.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol i gefnogi'r newid i ddull sy'n canolbwyntio mwy ar atal, gan gynnwys argaeledd cyllid trosiannol i gynyddu'r capasiti o darpariaeth llety nos argyfwng ar gyfer pobl sy'n cysgu allan.

- 2.3 Mae Cod Canllawiau Dyrannu Llety a Digartrefedd 2016 Llywodraeth Cymru, yn argymhell y dylai pob awdurdod lleol gael cynllun tywydd oer ysgrifenedig yn amlinellu ei drefniadau i roi cymorth mewn cyfnodau o dywydd oer a / neu garw.
- 2.4 Dylai pob awdurdod lleol gael SWEF a gychwynir pan ragwelir tywydd garw.

ADRAN 3 - DIFFINIADAU

Beth ydi Tywydd Eithriadol o Oer?

- 3.1 Ni cheir diffiniad cenedlaethol na statudol o'r hyn yw tywydd oer ac felly mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am bennu ei ddiffiniad ei hun. Mae CBSW wedi penderfynu mai'r trothwy ar gyfer tywydd garw yw rhagolygon tywydd gyda thymheredd dan sero. Defnyddir data y Swyddfa Dywydd, a ddarperir yn ddyddiol, i ragweld y tymheredd.

Diffiniad o Gysgu Allan

- 3.2 Nid oes unrhyw ddiffiniad penodol ar gyfer cysgu allan, ond ystyrir yn gyffredinol fel bod yn cynnwys pobl sy'n cysgu neu'n gwelya yn yr awyr agored a phobl mewn adeiladau neu leoedd eraill nad ydynt wedi'u dynodi ar gyfer byw megis pebyll, siediau neu unrhyw sefyllfaoedd eraill nad ydynt wedi eu dylunio ar gyfer preswyliaeth gyfreithiol.
- 3.3 At ddibenion y polisi hwn, bydd rhywun sy'n cysgu allan yn unrhyw berson sy'n cysgu allan ar y strydoedd mewn tywydd oer eithafol. Efallai y bydd yna rai pobl sy'n penderfynu cysgu ar y strydoedd ac ni all CBSW orfodi pobl i mewn i lety.
- 3.4 Bydd y SWEF hwn yn gweithredu y tu allan i'r cymhwyster digartrefedd arferol a'r hawl i dai neu lety dros dro, er enghraifft, bydd y rhai heb gysylltiad lleol yn cael eu gosod o dan y protocol hwn ar y noson gyntaf y maent yn cyflwyno eu hunain.

Darpariaeth Bresennol o Wlâu Argyfwng

- 3.5 Mae'r trefniant canlynol ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y rhai sy'n cysgu allan heb ystyried SWEF:
- 16 gwely yn y Tŷ Nos (Lloches Nos)
- 3.6 Mae Housing Justice Cymru sy'n elusen tai Cristnogol an-enwadol sy'n gweithio yng Nghymru yn ddiweddar wedi cychwyn ar brosiect peilot yn Wrecsam. Maent wedi gweithio gyda nifer o eglwysi i ddarparu lloches nos a arweinir gan eglwys ar sail rota i'r rhai sy'n cysgu allan yn ystod misoedd y gaeaf.

- 3.7 Pan fydd SWEF yn cael ei sbarduno, mae 6 gwely ychwanegol ar gael yn St John's y gellir eu defnyddio ynghyd â'r ddarpariaeth a grybwyllir ym mhwyntiau 3.5 a 3.6 uchod.
- 3.8 Bydd staff Dewisiadau Tai yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau uchod i geisio sicrhau llety ar gyfer unrhyw rai sydd â photensial o gysgu allan.

ADRAN 4 – GWEITHREDU'R PROTOCOL ARGYFWNG TYWYDD GARW

- 4.1 Bydd aelod o'r tîm Dewisiadau Tai yn gwirio gwefan y Swyddfa Dywydd bob dydd ac os oes adroddiad bod rhagolygon o dywydd garw o radd sero neu is yn debygol, byddant ar ôl trafodaeth gyda phartneriaid allweddol, yn datgan bod y SWEF mewn grym. Gwneir hyn 3 diwrnod ymlaen llaw bob dydd. Bydd yr Arweinydd Dewisiadau Tai yn arwain ar fonitro'r amodau tywydd ar gyfer rhai sy'n cysgu allan fel y darperir gan y Swyddfa Dywydd bob dydd i nodi pryd y dylid gweithredu'r SWEF ac am ba hyd.
- 4.2 Bydd aelod o'r tîm Dewisiadau Tai yn cysylltu â phartneriaid allweddol gan ddweud bod y SWEF wedi cael ei weithredu, pa mor hir y bydd yn parhau mewn grym a chadarnhau bod gwelyau argyfwng ar gael. Bydd hyn yn cael ei fonitro a'i adolygu'n ddyddiol.
- 4.3 Mae pob partner allweddol yn gyfrifol am fonitro amodau'r tywydd a pharatoi eu gwasanaethau yn unol â hynny.
- 4.4 Unwaith y bydd asiantaethau wedi cael gwybod bod y SWEF ar waith, bydd Gweithwyr Allgymorth yn gwneud pob ymdrech i drosglwyddo'r neges hon i ddefnyddwyr gwasanaeth hysbys sy'n cysgu allan neu'n ymweld â manau lle mae'n hysbys bod pobl yn cysgu allan.
- 4.5 Gall unrhyw un sy'n cysgu allan yn ystod y cyfnod hwn gael mynediad at y Tîm Dewisiadau Tai am gymorth naill ai yn ystod oriau swyddfa 01978 292947 neu os yw tu allan i oriau swyddfa gellir cysylltu â'r Gwasanaethau Digartrefedd ar 01978 264240.
- 4.6 Bydd y tîm Dewisiadau Tai yn ceisio darparu ar gyfer y rhai sy'n cysgu allan sy'n gofyn am gymorth (os oes cysylltiad lleol ai peidio) trwy eu cyfeirio at Tŷ Nos yn y lle cyntaf, gan eu cynghori na fyddant o reidrwydd yn cysgu yno ond bydd y staff yno yn eu cynghori o ran lle y gallant fynd. Rhaid i unigolion gyflwyno eu hunain i Tŷ Nos o 8:00 pm. Bydd unrhyw un sy'n cysgu allan, sy'n cyflwyno'i hun ac sy'n gymwys, yn cael llety yn Nhŷ Nos, St John neu mewn lleoliad arall.
- 4.7 Bydd y tîm Dewisiadau Tai yn cyfeirio nifer o bobl sy'n cysgu allan / digartref i Housing Justice Cymru sy'n cwrdd â'u meini prawf cyfeirio.

- 4.8 Mae gan CBSW drefniant gyda chwmni tacsis lleol a bydd yn trefnu cludiant i unigolion i lety os bydd angen. Bydd y gost am hyn yn cael ei chodi ar CBSW ar gyfer teithiau awdurdodedig o ganlyniad i SWEF.
- 4.9 Rhaid i'r defnyddiwr gwasanaeth aros yn y llety dros nos tan amser cytunedig a rhaid iddynt gytuno i gysylltu â'r tîm Dewisiadau Tai y diwrnod canlynol am gyfweliad ac asesiad i'w hatgyfeirio i wasanaethau priodol. Lle nad oes gan unigolion gysylltiad lleol â Wrecsam, bydd CBSW yn cynorthwyo i'w hail-gysylltu â'u hardal leol er mwyn iddynt ddod o hyd i ateb cartrefu mwy parhaol.
- 4.10 Mae'n hanfodol gwneud y defnydd gorau o'r holl lety sydd ar gael ac mae'n bwysig bod pob asiantaeth yn cydweithio i annog defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad i'r lletai hynny. Efallai y bydd gan ddarparwyr gwasanaethau eu meini prawf eu hunain ar gyfer derbyn unigolion ac efallai na fydd rhai yn derbyn y rhai hynny sydd â phroblemau sylweddau neu wedi gwneud bygythiadau o drais tuag at aelodau staff.
- 4.11 Y bore canlynol, bydd staff o Tŷ Nos a St John yn cyfathrebu â'r tîm Dewisiadau Tai, gan roi manylion am y rheini a fynychodd.

Tymheredd Eithafol

- 4.12 Yn ystod cyfnodau o wres llethol bydd y Tîm Dewisiadau Tai, yn ôl eu disgrisiwn, yn darparu eli haul, eli llosg haul a photeli dŵr i'r Wallich a'r Tŷ Nos eu dosbarthu.

ADRAN 5 – ASESIAU RISG

- 5.1 Bydd darparwyr gwasanaeth yn defnyddio eu Aseidiadau Risg eu hunain a byddant yn hysbysu'r Swyddog Dyletswydd Digartrefedd y tu allan i oriau gwaith os na allant ddarparu llety i unigolyn. Bydd gan y Swyddog Dyletswydd fynediad i unrhyw risgiau hysbys o ran unigolion penodol sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref a byddant yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth eu rhoi mewn llety addas.

ADRAN 6 – GWRTHOD LLETY

- 6.1 Os yw unigolyn wedi torri telerau'r darparwr llety oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, bygythiadau o drais i staff, ac ati, gall y darparwr gwasanaeth gadw'r hawl i wrthod mynediad i'r adeilad, gall gysylltu â'r Heddlu neu wrthod darparu llety. Mewn achosion o'r fath, bydd CBSW yn dal i ddarparu cefnogaeth a chynnig bagiau cysgu sydd ar gael o Tŷ Nos.

ADRAN 7 – GWASANAETHAU CEFNOGI A FFYRDD O HELPU

- 7.1 Mae llawer o bobl sy'n cysgu allan yn gweithio gyda nifer o asiantaethau a gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pobl sy'n ddigartref ac yn cysgu allan. Mae'r tîm

Dewisiadau Tai yn gweithio gyda rhai sy'n cysgu allan i nodi a darparu atebion tai yn ogystal â chyfeirio unigolion at asiantaethau perthnasol.

- 7.2 Os oes gan aelod o'r cyhoedd bryderon am rywun sy'n cysgu allan yng Nghymru a Lloegr, gallant ddefnyddio'r wefan [StreetLink www.streetlink.org.uk](http://www.streetlink.org.uk) neu app symudol StreetLink i anfon rhybudd ac yna anfonir y manylion at yr awdurdod lleol neu'r gwasanaethau allgymorth. Yn ychwanegol at hyn, gall pobl hefyd gysylltu â'r tîm Dewisiadau Tai yn ystod oriau swyddfa 01978 292947 neu'r Gwasanaeth Digartrefedd Tu Allan i Oriau Swyddfa 01978 264240. Bydd hyn yn rhybuddio gwasanaethau CBSW neu wasanaethau allgymorth am bobl y mae aelodau'r cyhoedd wedi gweld sydd efallai'n cysgu allan ac sydd efallai angen cymorth.
- 7.3 Pan dderbynnir gwybodaeth, gwneir ymdrechion i gysylltu â'r Wallich a fydd yn gofyn i Weithwyr Allgymorth gysylltu ag unigolion er mwyn cynnig cefnogaeth iddynt a chael eu hystyried ar gyfer llety addas.
- 7.4 Bydd CBSW yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n cysgu allan os bydd tywydd garw trwy wasanaethau allgymorth, cyfryngau cymdeithasol, gwefan y Cyngor, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol (AVOW) yn Wrecsam a'r wasg leol a bydd yn hyrwyddo'r darpariaethau a amlinellir yn y SWEP yn y cyfnod hyd at y gaeaf.
- 7.5 Croesewir rhoddion i Tŷ Nos o fagiau cysgu neu flancedi glân gan aelodau'r cyhoedd a gellir gollwng y rhain yn The Foyer. Ar hyn o bryd mae Tŷ Nos yn rhoi menig, blancedi, bagiau cysgu a diodydd poeth i bobl sy'n bresennol yno bob nos, os yw'r SWEP mewn grym ai peidio.

ADRAN 8 - RHIFAU FFÔN / GWEFANNAU DEFNYDDIOL

Gwasanaethau Digartrefedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

Oriau Swyddfa 01978 292947

Y tu allan i oriau swyddfa 01978 264240

StreetLink www.streetlink.org.uk
0300 5000914

Shelter Cymru 0345 0755005 (9.30 am tan 4 pm dydd Llun i
ddydd Gwener)

Cyswllt mewn Argyfwng 999

Tŷ Nos (Lloches Nos) Ffordd Holt Ar agor yn ddyddiol o 8pm

Rhif ffôn dydd (The Foyer) 01978 262222

Rhif ffôn nos 01978 291274

Gwefannau i gael mwy o wybodaeth:

Clwyd Alyn www.clwydalyn.co.uk

Y Wallich www.thewallich.com

Mynediad at Wasanaethau, Argaeledd Bwyd ar gyfer Pobl Ddigartref a Rhai sy'n Cysgu Allan

Atodiad 1

Mae gweithwyr cefnogi Allgymorth Cysgwyr Allan ar gael o 8 yb tan 5 yh neu 6 yh a thrwy gydol y penwythnos.

Mae gweithwyr cymorth ar gael rhwng 7.30 yb tan 5 yh ar y dyddiau canlynol o'r gwasanaethau canlynol:

- Y Wallich
- CAIS
- The Elms
- NACRO
- Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau
- Tîm Opsiynau Tai CBSW
- Y Porth Tai
- Gwasanaethau Lleihau Niwed

Mae'r Ganolfan Gymunedol (Crisis Café) ym Myddin yr Iachawdwriaeth, Rhosddu ar agor bob bore Gwener rhwng 9.30 yb. a 12 hanner dydd.

Mae Tŷ Croeso ar gael ar gyfer cyfleusterau ymolchi a golchi dillad - Dydd Llun i Ddydd Sadwrn 8.30 yb tan 12.30 yh.

Argaeledd Bwyd

Dydd Llun, Dydd Mawrth a Dydd Mercher:

Brecwast - Tŷ Nos, Gwasanaeth Allgymorth

Gyda'r Nos - Tŷ Nos, Soup Dragon 5 yh tan 6 yh

Cinio Dydd Llun – Tŷ Croeso, 1 yh tan 2 yh

Cinio Dydd Mawrth – CAIS 12 yh tan 1 yh

Dydd Iau

Brecwast - Tŷ Nos, Byddin yr Iachawdwriaeth 9.30 yb i 11 yb, Gwasanaeth Allgymorth

Cinio – Tŷ Croeso, 1 yh tan 2 yh

Gyda'r Nos - Tŷ Nos, Soup Dragon 4 yh tan 5 yh

Dydd Gwener

Brecwast - Tŷ Nos, Gwasanaeth Allgymorth, Canolfan Gymunedol Byddin yr Iachawdwriaeth

Gyda'r Nos - Tŷ Nos, Soup Dragon 5 yh tan 6 yh

Cinio – CAIS 12 yh tan 1 yh

Dydd Sadwrn a Dydd Sul

Brecwast - Gwasanaeth Allgymorth

Gyda'r Nos Dydd Sadwrn – Eglwys y Drindod 6 yh tan 6.30 yh

Darperir Brecwast a Phryd Gyda'r Nos i'r rhai sy'n cael eu lletya yn Nhŷ Nos

Cinio Dydd Sadwrn – 12 yh tan 4 yh, Soup Dragon

Gyda'r Nos Dydd Sul – Eglwys y Drindod 5 yh tan 5.30 yh

Cinio Dydd Sul – 11 yb tan 3 yh, Soup Dragon